| | |
|---|---|
| **CYNGOR SIR PENFRO, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1TP (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "Cyngor Sir Penfro").** | **PEMBROKESHIRE COUNTY COUNCIL of County Hall, Haverfordwest, Pembrokeshire, SA61 1TP (hereinafter referred to as "Pembrokeshire County Council".** |
| Rhybuddir yn unol ag adrannau 41 a 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Tachwedd 2018) bod Cyngor Sir Penfro, ar ôl ymgynghori â'r personau angenrheidiol, yn bwriadu gweithredu: | Notice is given in accordance with sections 41 and 43 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Organisation Code (November 2018) that Pembrokeshire County Council, having consulted such persons as required, proposes to implement : |
| 1. O 31 Awst 2021 ymlaen, i ddirwyn i ben yr ysgolion canlynol sydd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir Penfro:<br>• Ysgol y Frenni, Crymych, SA41 3QH<br>• Ysgol y Preseli, Crymych, SA41 3QH.<br>Nid oes gan yr un ysgol gymeriad crefyddol. | 1. As from 31 August 2021, discontinue the following schools currently maintained by Pembrokeshire County Council<br>• Ysgol y Frenni, Crymych, SA41 3QH<br>• Ysgol y Preseli, Crymych, SA41 3QH.<br>Neither school has a religious character. |
| 2. O 1 Medi 2021, sefydlu ysgol newydd 3-19 ar gyfer bechgyn a merched ar safleoedd yr ysgolion presennol, i'w chynnal gan Gyngor Sir Penfro. Categori iaith yr ysgol fydd Cyfrwng Cymraeg ar gyfer yr elfen 3-11, a Dwyieithog AB (2A) ar gyfer yr elfen 11-19. | 2. As from 1 September 2021, establish a new all through 3-19 school for boys and girls on the sites of the existing schools, to be maintained by Pembrokeshire County Council. The language category of the school will be Welsh Medium (WM) for the 3-11 element and Bilingual AB (2A) for the 11-19 element. |
| Fel y cynigydd, ymgymerodd Cyngor Sir Penfro â chyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae Adroddiad Ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, ymatebion y cynigydd a barn Estyn wedi ei ystyried gan y Cyngor Sir ac mae ar gael ar wefan y Cyngor (www.pembrokeshire.gov.uk). | As proposer, Pembrokeshire County Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A Consultation Report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and the views of Estyn was considered by the County Council and is available on Council's website (www.pembrokeshire.gov.uk). |
| Bydd yr ysgol arfaethedig newydd yn Ysgol Gymunedol, a'r Awdurdod Derbyn fydd Cyngor Sir Penfro. Ni fydd gan yr ysgol newydd gymeriad crefyddol ac ni fydd y trefniadau derbyn yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer bandio disgyblion. Y Rhif Derbyn ar gyfer pob grŵp blwyddyn perthnasol yr ysgol newydd yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf pan fydd y cynnig yn cael ei gweithredu fydd:<br>Dosbarth Derbyn i Blwyddyn 6 – **30**<br>Blwyddyn 7 i Blwyddyn 13 - **156** | The proposed new school will be a Community School, and the Admission Authority will be Pembrokeshire County Council. The new school will not have a religious character and admission arrangements for the new school will not make provision for pupil banding. The admission number for each relevant age group for the new school in the first school year in which the proposals will be implemented will be as follows:<br>Reception to Year 6 **– 30**<br>Year 7 – Year 13 - **156** |
| Capasiti yr ysgol newydd fydd 210 ar gyfer yr elfen gynradd a 955 am yr elfen uwchradd. O ystyried bod y ddarpariaeth gynradd ac uwchradd yn cael ei chynnal ar safleoedd presennol yr ysgol ar ôl gweithredu'r cynnig, nid oes angen unrhyw ddarpariaeth amgen. At hynny, ac yn amodol ar ddewis rhieni, bwriedir i bob disgybl sy'n mynychu'r ysgolion presennol ar y dyddiad gweithredu gael llefydd yn yr ysgol arfaethedig. | The new school's pupil capacity will be 210 for the primary element and 955 for the secondary element. In view of both primary and secondary provision being maintained on the existing school sites following implementation of the proposal, no alternative provision is necessary. Furthermore, subject to parental preference, it is intended that all pupils attending the current schools as at the implementation date will have places in the proposed school. |

Bydd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr awdurdod ar ddyddiad gweithredu'r cynnig.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn 29 Tachwedd 2020, gall unrhyw berson fynegi gwrthwynebiad i'r cynnig.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Cyfarwyddwr Addysg, Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP, neu e-bostiwch:
educationconsultations@pembrokeshire.gov.uk

Arwyddwyd



STEVEN RICHARDS-DOWNES
Cyfarwyddwr Addysg
2 Tachwedd 2020

**Nodyn Esboniadol:**
**(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn rhan o'r Rhybudd ond fe'i cynigir fel eglurhad)**

1. Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig rhoi gorau i gynnal Ysgol y Frenni ac Ysgol y Preseli ar 31 Awst 2021, a chynigir sefydlu ysgol newydd 3-19 yng Nghrymych gan ddefnyddio safleoedd yr ysgolion presennol o'r 1 Medi 2021 ymlaen.
2. Cyngor Sir Penfro fydd yr Awdurdod Derbyn; bydd y disgyblion newydd a dderbynnir yn mynychu (yn amodol ar ddewis y rhieni) yn unol a Pholisi Derbyn y Cyngor.
3. Ni fydd yn ofynnol i rieni disgyblion sy'n mynychu elfen gynradd yr ysgol wneud cais am leoedd yn yr elfen uwchradd pan fyddant yn cyrraedd Blwyddyn 6 – yn amodol ar ddewis rhieni, byddant yn symud ymlaen i Flwyddyn 7 yn awtomatig. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i rieni disgyblion mewn ysgolion cynradd eraill sy'n dymuno i'w plant fynychu elfen uwchradd yr ysgol newydd gyflwyno ceisiadau i'w derbyn yn ôl yr arfer.
4. Bydd Corff Llywodraethu Dros Dro'r ysgol newydd yn cael ei sefydlu a bydd yn gyfrifol am:
   - Benodi'r Pennaeth
   - Enwi'r ysgol newydd
   - Sefydlu gweledigaeth ac ethos
   - Gwneud trefniadau sefydliadol yn cynnwys cwricwlwm ac adeiladau
   - Agor yr ysgol hyd at yr amser y bydd y corf llywodraethol parhaol yn barod i weithredu.

Home to School Transport will be provided in accordance with the Authority's Home to School Transport Policy as at the date of the implementation of the proposal.

Within a period of 28 days after the date of publication of this ese proposals, that is to say by 29th November 2020, any person may object to the proposal.

Objections should be sent to: The Director of Education, County Hall, Haverfordwest, SA61 1TP or email:
educationconsultations@pembrokeshire.gov.uk

Signed



STEVEN RICHARDS-DOWNES
Director of Education
2nd November 2020

**Explanatory Note:**
**(This explanatory note does not form part of the Notice but is offered by way of explanation)**

1. Pembrokeshire County Council proposes to cease to maintain Ysgol y Frenni and Ysgol y Preseli with effect from 31st August 2021, and proposes to establish a new 3-19 school in Crymych, using the sites of the existing schools with effect from 1st September 2021.
2. The County Council will be the Admissions Authority; as such new pupils will attend (subject to parental preference) in accordance with the Council's Admissions Policy.
3. The parents of pupils attending the primary element of the school will not be required to apply for places in the secondary element when they reach Year 6 – subject to parental preference, they will proceed to Year 7 automatically. However, parents of pupils in other primary schools who wish for their children to attend the secondary element of the new school will be required to submit applications for admission as per normal.
4. A Temporary Governing Body for the new school will be established and will be responsible for:
   - Appointment of Headteacher
   - Naming of the new school
   - Establishing the vision and ethos
   - Making organisational arrangements including curriculum and accommodation
   - the opening of the new school until such time as the new permanent governing body is in place.

-